



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau yfory

Ein Cynllun Busnes 2019/20

Croeso...

...i'n Cynllun Busnes ar gyfer 2019/20. Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â'n [Cynllun Corfforaethol](#), sy'n disgrifio ein saith amcan llesiant a'r camau sydd eu hangen arnom er mwyn eu cyflawni.

Mae ein cynllun corfforaethol yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru:

Rydym yn falch o arwain y ffordd i ddyfodol gwell ar gyfer Cymru drwy reoli amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

Mae ein hamcanion llesiant fel a ganlyn:

- Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy
- Sicrhau bod tir a dŵr Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig
- Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau
- Lleihau'r risg i bobl a chymunedau rhag peryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd
- Helpu pobl i fyw bywydau mwy iachach a mwy boddhaus
- Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi
- Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

Cyflwyniad

Mae amgylchedd naturiol Cymru yn rhagorol ac yn ysbrydoledig. Mae'n sylfaen i'n hiechyd, ein llesiant a'n ffyniant. Mae'n darparu'r aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed, a'r bwyd rydym yn ei fwyta. Mae'n darparu egni a deunyddiau craidd. Mae'n dangos argraff gweithgaredd dynol yn y gorffennol ac mae wedi siapio ein hanes a'n diwylliant. Yn ogystal â'i werth cynhenid – ei werth er ei fwyn ei hun – y mae'n hanfodol i'n ffordd o fyw a bydd yn parhau i fod felly, gan ddarparu swyddi, cyfleoedd hamdden ac ymlacio, a lleoedd deniadol er mwyn i ni gael byw, gweithio a mwynhau ynddynt. Ni all unrhyw un ohonom fyw hebdo – ond yn rhy aml o lawer, fe'i cymerir yn ganiataol.

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn un o'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu Cymru a'r byd. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu fersiwn ddrafft o Gynllun Ymaddasu ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd i Gymru a Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel ac rydym wedi ymrwymo i weithredu'u darpariaethau ledled ein sefydliad. Mae mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd y tu ôl i'n holl gynlluniau a'n hamcanion, gan gynnwys y cynllun busnes hwn. Rwyf am i ni ddangos arweinyddiaeth ac arwain drwy esiampl wrth ymgysylltu â phartneriaid, y cyhoedd a rhanddeiliaid ar yr effeithiau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas ag addasiad arfordirol a pherygl llifogydd, lle rydym yn archwilio a darparu opsiynau i leihau'r perygl o lifogydd i bobl, busnesau a chymunedau.

Mae'r cynllun busnes hwn yn gosod ein blaenoriaethau ar gyfer cyflenwi yn 2019/20. Mae'n adlewyrchu ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022 a'n saith amcan llesiant, yn ogystal â'n dyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i weithredu'i egwyddorion. Bydd gweithredu'r egwyddorion hyn a'r ffyrdd o weithio sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gyflawni ein swyddogaethau yn sail i'n gwaith o gyflawni ein hamcanion llesiant. Trwy gyflawni'r cynllun hwn, byddwn yn cefnogi rhaglen Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynlluniau megis Cynllun Gweithredu Economaidd y Prif Weinidog.

Bydd arweiniad ar ein diben cyffredinol oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ein helpu o ran sut rydym yn gwneud penderfyniadau, sut rydym yn dangos y ffyrdd o weithio a sut mae egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael eu hystyried.

Wrth ymuno â Cyfoeth Naturiol Cymru, nodais saith maes gwaith y dylid canolbwyntio arnynt. Y rhain yw gweledigaeth, gwerthoedd, diwylliant, cyfathrebu, masnachol, cydweithio a chwsmeriaid. Byddwch yn gweld gwaith i fynd i'r afael â llawer o'r rhain yn y cynllun hwn.

Mae gennym nifer o flaenoriaethau ar gyfer 2019/20 yn y cynllun hwn, sy'n ffurfio rhan o fy ffocws fy hun, a'n huchelgais tymor hwy, i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol a'n hamcanion llesiant. Mae'r rhain yn eu tro yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru a gwireddu'r prif gyfleoedd sy'n gysylltiedig ag adnoddau naturiol fel y'u nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol.

Claire Pillman
Prif Weithredwr

Ein gwaith

Wrth baratoi'r cynllun hwn, rydym wedi gorfod cymryd penderfyniadau anodd a bydd angen yr holl ddyfeisgarwch, arloesedd a chydweithrediad gyda phartneriaid y gallwn ddod o hyd iddynt er mwyn ei gyflawni. Yn wir, ceir llawer o feysydd gwaith lle hoffem gyflawni mwy, a byddwn yn ymaddasu'n barhaus i gyfleoedd i gyflenwi mwy o ganlyniadau gwell ar gyfer amgylchedd Cymru a phobl Cymru. Er mwyn mwyaheu cyflawniad, mae gofyn i ni barhau i weithio mewn cydweithrediad a datblygu'r modd rydym yn gwneud hyn a'r cymorth rydym yn ei roi i bartneriaid yn barhaus, gan greu cyfleoedd ar gyfer cymdeithas a'r economi trwy adfer cydnerthedd i systemau a'r potensial ar gyfer mwynhau.

Fel y Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru mwyaf, mae gennym amrediad eang o rolau yr ydym yn eu cyflawni ar sail barhaus:

- **Cynghorydd:** i Lywodraeth Cymru a diwydiant, tiffeddianwyr / rheolwyr tir, y cyhoedd ehangach a'r sector gwirfoddol.
- **Rheoleiddiwr:** o safleoedd diwydiant a gwastraff, a safleoedd ynni, morol, coedwig a dynodedig, er enghraifft, gan warchod pobl a'r amgylchedd naturiol a chefnogi busnes cyfreithlon (gan gynnwys ein targed o gyflawni 95% o drwyddedau mewn da bryd). Cefnogi'r gwaith o gyflawni a hwyluso ynni adnewyddadwy.
- **Dynodwr:** ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol ac wrth gyhoeddi Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

- **Ymatebydd:** derbyn 9,000 adroddiad o ddigwyddiadau amgylcheddol y flwyddyn, gan dargedu ein hymateb i'r rheini sydd wedi'u categorio'n "uchel" (gan gynnwys ein targed i ymateb mewn modd amserol – 95% Categori Uchel).
- **Ymgynghorydd statudol:** ar gyfer tua 9,000 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn (gan gynnwys ein targed o 95% o fewn yr amser ymateb).
- **Rheolwr:** o 7% o arwynebedd tir Cymru, gan gynnwys Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (gan gynnwys ein targedau o gynnal ardystiad coetir a chyflawni ein rhaglen ynni adnewyddadwy), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, 500 km o amddiffynfeydd llifogydd a 4,000 o asedau (gan gynnwys ein targed o gynnal cyflwr 99% o'n hasedau mewn lleoliadau risg uchel a chyflawni rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd), a chynnal cyfleusterau hamdden a labordy.
- **Partner, addysgwr a galluogwr:** cefnogi a hwyluso gwaith sefydliadau eraill a helpu pobl i fwynhau a dysgu yn yr amgylchedd naturiol ac amdano (gan gynnwys ein targed o gydweithio trwy brosiectau).
- **Casglwr tystiolaeth:** monitro'r amgylchedd, dylanwadu, comisiynu a gwneud ymchwil, datblygu a rhannu gwybodaeth, a chynnal cofnodion cyhoeddus.
- **Cyflogwr:** o tua 1,750 o staff yn ogystal â chontractwyr a gwirfoddolwyr.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20

Yn ogystal â'n rôl barhaus, mae deg blaenoriaeth sy'n cynrychioli'r darnau o waith mwyaf penodol y byddwn yn mynd i'r afael â nhw yn 2019/20. Bydd ein holl flaenoriaethau yn cael eu hariannu er mwyn cyflawni'r uchelgais a nodir yn y cynllun busnes hwn. Mae'r adran adnoddau yn nodi sut mae'r gyllideb wedi'i dosbarthu ar draws ein cyfarwyddiaethau.

1. Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru

Parhau â'r gwaith sylweddol o ddatblygu ein sefydliad, gan gydnabod bod ein staff wrth wraidd ein gallu i gyflawni popeth y gallwn ar gyfer Cymru a'n hamgylchedd naturiol. Trwy adeiladu #TîmCNC â phwyslais ar werthoedd, byddwn yn sicrhau bod ein staff, ein sefydliad a'n gwlad yn cael eu hadnabod fel arweinwyr y byd ym maes rheoli ein hamgylchedd naturiol yn gynaliadwy ym mhob ffordd bosibl.

- Gwella ein gweithdrefnau llywodraethu a chydymffurfio mewnol sy'n ymwneud â chyflawni gwerthiannau pren, gan ddarparu sicrwydd fod y materion sy'n codi o adolygiad Grant Thornton yn cael eu datrys gan ddefnyddio mesurau tymor byr, tymor canolog a hirdymor.
- Cefnogi'r holl staff i ymgorffori ffyrdd newydd o weithio yn sgil y cynllun newydd, gan sicrhau bod y llywodraethiant, polisïau a phrosesau cefnogi angenrheidiol, gan gynnwys cyflawni ein rolau lluosog, ar waith.
- Darparu cefnogaeth i reolwyr ac arweinwyr tîm newydd, gan gynnwys sefydlu fframwaith cymhwysedd ar gyfer yr holl staff.
- Datblygu cynllun gweithlu strategol sy'n hwyluso llwybrau gyrfa ac yn llywio rhaglenni datblygu a ffocws ar recriwtio.
- Datblygu #TîmCNC er mwyn annog ymddygiadau o amgylch ein gwerthoedd newydd.

- Datblygu strategaeth gyfathrebu newydd i gefnogi ein cam cyflenwi newydd, gan gynnwys offer ymchwilio y gallwn eu defnyddio i gyflawni ymgysylltu ac ymgynghoriadau gwell.
- Cyflawni a gweithredu fframwaith rheoli risg newydd ar gyfer y sefydliad.
- Gweithredu cynllun gwaith ein Strategaeth Cwsmeriaid trwy sefydlu gwaelodlin i fesur profiad ein cwsmeriaid o ran ein gwasanaethau a chyflenwi 13 o brosiectau erbyn mis Mawrth 2020 gyda £0.6 miliwn o gyllid.
- Datblygu ein system rheoli llesiant, iechyd a diogelwch er mwyn iddi gael ei hardystio i ISO45001.
- Paratoi ar gyfer asesiadau Safon Iechyd Corfforaethol Lefel Aur yn 2020/21 ar ôl cyrraedd lefel Arian ym mis Mawrth 2019.

2. Cyflawni datganiadau ardal

Erbyn diwedd 2019/20, byddwn yn cyflawni, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, saith datganiad ardal sy'n cwmpasu tir ac ardal forol glannau Cymru. Bydd y rhain yn cefnogi'r gwaith o weithredu Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, gan lywio a galluogi cyflawni ledled Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a thrwy ein cynorthwyo ni ac eraill i ganolbwyntio adnoddau ar ardaloedd â'r budd mwyaf a gwireddu blaenoriaethau cenedlaethol. Byddant yn:

- Ceisio sicrhau bod gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddiannau o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael eu cydnabod a'u hoptimeiddio yng nghynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gysylltu ac integreiddio gwaith holl aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (mae £2.1 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu).
- Nodi'r heriau a'r cyfleoedd lle gall adnoddau naturiol greu budd i bobl mewn ardaloedd lleol.
- Ffurfio sylfaen ein gwaith, gan eu bod yn hanfodol o ran llywio'r gwaith o gyflawni gwasanaeth cyhoeddus ehangach, a darparu cyfleoedd i bawb gymryd camau.

Byddwn yn gwerthuso llwyddiant datganiadau ardal wrth i ni symud ymlaen, gan sefydlu mesurau perfformiad o amgylch y gweithgareddau rydym yn eu cyflawni a'r ffactorau galluogi. Bydd y rhain yn alinio â fframwaith monitro a gwerthuso Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a byddant yn cynnwys mesurau ansoddol a meintiol.

Ar gyfer y flwyddyn 2019/20, mae gennym gyfres o bwyntiau adolygu ar waith:

- Erbyn haf 2019 mewn perthynas â'r heriau/themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg ym mhob lle, bydd gennym ddealltwriaeth gyffredin â rhanddeiliaid ynghylch y materion a'r ffactorau sy'n debygol o gael effaith ar newid a'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio.
- Erbyn hydref 2019, byddwn yn gallu diffinio sut olwg sydd ar lwyddiant. Bydd gennym gyfres o opsiynau posibl ar gyfer ymyriadau a byddwn yn adeiladu ein "theori newid".
- Erbyn gaeaf 2020, byddwn wedi nodi cyfres o weithrediadau allweddol y byddwn ni, ac eraill, yn eu cymryd i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, a byddwn yn gallu dangos y ffyrdd yr ydym wedi cynnwys eraill yn y broses.

3. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

Yn 2019/20, byddwn yn gweithio tuag at gyhoeddi ein hail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn 2020. Bydd hwn yn adeiladu ar ein hasesiad cyntaf o'r rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol, a nodwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf a gyhoeddwyd yn 2016. Trwy weithio gydag eraill, erbyn mis Rhagfyr 2019 byddwn wedi cyhoeddi ein hadroddiad interim, a fydd yn:

- Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Polisi Adnoddau Naturiol nesaf.
- Disgrifio materion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau bod y rhain yn ystyried unrhyw rai y gellid mynd i'r afael â nhw ar lefel genedlaethol sydd wedi'u nodi trwy'r broses datganiad ardal.
- Disgrifio bylchau mewn tystiolaeth sydd newydd gael eu nodi ac unrhyw ddiweddariad ynghylch sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth a nodwyd yn flaenorol.
- Cynnig dangosyddion i'w defnyddio er mwyn olrhain cynnydd o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Fel datganiadau ardal, bydd y rhain yn alinio â fframwaith monitro a gwerthuso Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a disgwylir iddynt gynnwys mesurau ansoddol a meintiol.

Ym mis Ionawr 2020, byddwn yn dechrau cynllunio ac ysgrifennu'r adroddiad terfynol (a ddisgwylir ym mis Rhagfyr 2020), ac erbyn mis Ebrill 2020 byddwn wedi cwblhau coladu tystiolaeth.

Bydd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn darparu'r brif dystiolaeth ar gyfer datblygu ein gweledigaeth / cynllun hirdymor a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol yn 2050, gan gynnwys ymgysylltu a hwyluso gyda staff a rhanddeiliaid gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio a naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

4. Ymateb i ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chynghori wrth iddynt ddatblygu dull newydd o gefnogi rheolwyr tir yn ariannol i helpu i gyflawni amcanion Cymru ar gyfer yr amgylchedd naturiol ac economi carbon isel.

- Byddwn yn datblygu cynigion i integreiddio ein swyddogaethau tystiolaeth, rheoleiddiol a chynghori'n well, gan weithio i reoli, gweinyddu a chyflawni cynlluniau mewn ffordd sy'n tanategu cydnerthedd busnes a thaliadau ar gyfer cynhyrchu nwyddau cyhoeddus.
- Gyda'n partneriaid o fewn ein Fforwm Rheoli Tir Cymru, byddwn yn parhau i weithredu ein rhaglen arloesol i fynd i'r afael â llygredd dŵr sy'n deillio o fusnesau amaethyddol a rheoli tir. Byddwn yn defnyddio £0.5 miliwn i weithio'n agos ar gynllun rheoli tir Cymru yn y dyfodol ar sail ein dull o fynd i'r afael â'r mater hwn.

Os bydd angen, byddwn yn rhoi ein paratodau ar gyfer ymadael "heb ddêl" o'r Undeb Ewropeaidd ar waith, gan sicrhau bod risgiau i bobl a'r amgylchedd yn cael eu rheoli. Bydd effaith y senario hwn ar ein gwaith cyflawni yn gofyn i ni adolygu'r cynllun busnes hwn. Ar hyn o bryd, rydym wedi dyrannu cyllideb gwerth £1.9 miliwn ar gyfer hyn.

5. Gwella iechyd a llesiant

Gwella iechyd a llesiant, gan gynnwys mynd i'r afael ag effaith llygredd aer, trwy weithio ar draws ein swyddogaethau a'r tir a'r dŵr rydym yn eu rheoli er mwyn:

- Paratoi cyfeiriad strategol ar seilwaith gwyrdd, tirwedd a chreu lleoedd, a sefydlu rhaglen seilwaith gwyrdd.
- Datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag lechyd Cyhoeddus Cymru ar hyrwyddo canlyniadau iechyd yn yr amgylchedd a chydweithio gydag lechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru i fynd i'r afael â lefelau o anweithgarwch corfforol yng Nghymru.
- Datblygu polisi strategol er mwyn gwella iechyd a llesiant.
- Buddsoddi £1.7 miliwn mewn gwaith partneriaeth i gyflenwi rhaglen Llwybr Arfordir Cymru a rhaglen y Llwybrau Cenedlaethol, gan gynghori ar y buddiannau y mae'r rhaglenni yn eu darparu.
- Datblygu a gweithredu Cynllun Teithio Llesol a Chynaliadwy ar ein cyfer, gan gynnwys camau i gael achrediad "cyflogwr sy'n gyfeillgar i feicwyr", a chynyddu opsiynau teithio llesol a chynaliadwy i staff sy'n cymudo a theithiau busnes.

6. Rheoli dŵr yn gynaliadwy

Rydym yn bwriadu adfer dyfroedd, atal dirywiad, gwella'u hansawdd a sicrhau ein bod yn rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy:

- Adfer llifoedd naturiol, gwella gwydnwch ecolegol, adfer potensial pysgod i fudo a gwella llesiant mewn ardaloedd trefol trwy nodi meysydd â chyfleoedd i adfer afonydd i lywio datganiadau ardal, cyllid yn y dyfodol a chamau gweithredu.
- Datblygu a gweithredu cynlluniau rheoli basn afon er mwyn atal dirywiad ac adfer dyfroedd trwy archwilio a gweithredu ar lefel leol a ledled Cymru.
- Ymgynghori ynghylch yr heriau a'r dewisiadau ar gyfer mynd i'r afael â materion rheoli dŵr er mwyn hysbysu trydydd cylch y cynlluniau, gan wneud mwy o ddefnydd o ddatrysiadau rheoli dŵr arloesol a rhai sy'n seiliedig ar natur.
- Gweithio trwy Fforwm Rheoli Tir Cymru a'i is-grŵp ar lygredd amaethyddol i ystyried dulliau system gyfan ar gyfer rheoli tir yn well, a chefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu cyfres o fesurau i fynd i'r afael â llygredd dŵr amaethyddol, gan gynnwys rheoleiddio, mentrau gwirfoddol ac arloesedd.
- Datblygu ein systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) mewn perthynas ag adnoddau dŵr i gyflawni effeithlonrwydd busnes a phrofiad cwsmeriaid gwell, ac i gasglu gwybodaeth well i gefnogi rheoli adnoddau dŵr yn y dyfodol.
- Byddwn yn darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar y prosiect Asesu Gweithgarwch Pysgota yng Nghymru.
- Fel rhan o adolygiad cyfnodol OFWAT o brisiau dŵr, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cynlluniau busnes cwmnïau dŵr yn cyflawni canlyniadau effeithiol ar gyfer yr amgylchedd a pherfformiad amgylcheddol gwell.
- Ymgymryd â'r gwaith o reoli a chyflawni rhaglen dyfroedd mwyngloddiau segur ar gyfer Cymru, gyda chyllid o £0.5 miliwn.

7. Rheolaeth o dir rydym yn ei reoli yn y dyfodol a chydweithio gydag eraill

Dechrau cyflenwi ein rhaglen creu coetiroedd uchelgeisiol newydd trwy wneud y canlynol:

- Gwella cyfradd creu coetiroedd newydd trwy ein cynllun gweithredu.
- Cychwyn ar ein cynllun plannu coetir newydd (i ddisodli coetir a gollwyd trwy ein rhaglen cyflenwi ynni gydag £1.2 miliwn o arian).

- Defnyddio cyfran o'n hincwm pren i greu coetir newydd a reolir fel rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.
- Coffáu can mlynedd o goedwigaeth a, thrwy ein prosiect Plannu Coed Canmlwyddiant, diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Cyflenwi PLANT! – y cynllun i blannu coeden ar gyfer pob plentyn a enir neu a fabwysiadir yng Nghymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Canolbwyntio ar y canlynol o ran "diben a rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru":

- Cadw ardystiad goedwigaeth annibynnol ar gyfer ein rheolaeth gynaliadwy.
- Cynllunio a marchnata 850,000 m³ o bren.
- Lleihau arwynebedd y tir sy'n aros i gael ei ailblannu.
- Cyflymu ein rhaglen adfer safleoedd coetir hynafol a flaenoriaethir, gan gynnwys mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron er mwyn gwella ansawdd y coetir.
- Dechrau adrodd ar ddangosyddion perfformiad Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Mae arian wedi'i alinio i'r blaenoriaethau, yn bennaf o'n hincwm pren.

Gweithredu ein safbwynt yn dilyn adolygiad o'r defnydd o arfau tanio ar ein tir a reolir, gan gynnwys gwaith pellach ar brydlesi ar gyfer saethu adar mewn Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

Buddsoddi £5.2 miliwn mewn uwchraddio adeileddau ar y tir rydym yn ei reoli er mwyn sicrhau rheolaeth ddiogel a chyfrifol barhaus sy'n cydymffurfio â Deddf Cronfeydd Dŵr 1975.

8. Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth

Ymgorffori ein cyfeiriad strategol Natur Hanfodol ar gyfer bioamrywiaeth ar draws ein swyddogaethau er mwyn gyrru gwrthdroad yn y dirywiad mewn bioamrywiaeth ac i helpu cyrff cyhoeddus i wneud yr un peth. Cyflenwi a rhannu arfer gorau, astudiaethau achos, tystiolaeth, cyngor ac ysbrydoliaeth gan ddefnyddio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyngori ar ddatblygu cynllun rheoli tir yn y dyfodol ar gyfer Cymru sy'n cefnogi ecosystemau mwy cydnerth. Datblygu dull strategol ar gyfer cynllunio a rheoli safleoedd daearol, dŵr croyw a morol yn y dyfodol.

Erbyn diwedd 2019/20:

- Cwblhau archwiliad o'r graddau rydym yn sicrhau bod bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn cael eu hystyried yn ystod cyfnodau cynnar ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau, ac yn ein rhaglenni, cyngor, ein gwaith trwyddedu a rheoleiddio, ein gwaith i reoli tir ac asedau, a'n comisiynu a chaffael.
- Rydym wedi buddsoddi £0.8 miliwn ychwanegol er mwyn rhoi Natur Hanfodol ar waith.
- Rydym wedi datblygu ein dull monitro safleoedd gwarchodedig ar gyfer y dyfodol, gydag asesiad cychwynnol o'r risg na fydd safleoedd yn eu cyflwr dymunol.
- Rydym wedi cwblhau rhestr adran saith o rywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd pennaf.

- Rydym wedi trawsnewid ein systemau TGCh ar gyfer caniatadau/cydsyniadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a safleoedd arbennig, gan gynnwys lansio offeryn cydweithredol i rannu gwybodaeth ar fesurau rheoli safleoedd dynodedig.
- Mae cynlluniau gweithredu gwella bioddiogelwch ar waith.
- Rydym wedi adrodd ynghylch ein gwaith i gyflawni dyletswydd adran chwech Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Yn ogystal, byddwn yn:

- Defnyddio arian ychwanegol am Warchodfeydd Natur Cenedlaethol (£0.3 miliwn yn bresennol) i gyflenwi'r rhaglen flynyddol o gamau gweithredu blaenoriaeth o gynlluniau rheoli gwarchodfeydd. Cynnwys camau gweithredu rheoli cadwraeth hanfodol sy'n cyfrannu tuag at gydnerthedd ecosystemau ehangach a chynhaliu seilwaith hanfodol. Bydd ein dull addasol o gynllunio ar gyfer rheoli gwarchodfeydd natur yn ein caniatáu i olrhain cynnydd yn erbyn y rhaglen flynyddol a dangos llwybr archwilio rhwng gwaith a gynhaliwyd ar lawr gwlad a chyflawni bioamrywiaeth ac enillion eraill.
- Gweithredu canlyniad yr ymchwiliad lleol ar gyflwyno is-ddeddfau pysgota er mwyn hyrwyddo adferiad poblogaethau cynaliadwy o salmonidau yn ein dyfroedd croyw ochr yn ochr â'n gwaith i hyrwyddo rheolaeth well o'r tir mewn dalgylchoedd bregus.
- Darparu £2 miliwn bellach i gefnogi camau gweithredu i gyflawni buddiannau ar gyfer bioamrywiaeth ac adeiladu cydnerthedd mewn ecosystemau trwy ein mecanweithiau grantiau.

9. Mynd i'r afael â gweithgarwch gwastraff anghyfreithlon fel rhan o gydymffurfiaeth reoliadol effeithiol a gweithio gydag eraill i gefnogi cymunedau a effeithir arnynt a gweithredwyr cyfreithlon.

Gan ddefnyddio arian Llywodraeth Cymru, byddwn yn arwain a chyflenwi:

- Cynllun gweithredu sy'n llywio ein dull a'n hymyriadau wrth fynd i'r afael â throeddau gwastraff a gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon. Trwy weithio gyda rheoleiddwyr eraill yn y DU a phartneriaid, bydd hyn yn adeiladu ar arfer gorau ac anelu amhariaeth gyda thactegau arloesol at weithgareddau risg uchel i atal troeddwyr rhag parhau i ymgymryd â gweithgareddau anghyfreithlon. Datblygu dull ar y cyd ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig gydag Awdurdod Cyllid Cymru.
- Arolwg o sgil-gynhyrchion gwastraff diwydiannol a masnachol, sy'n darparu amcangyfrif wedi'i ddiweddarau ac yn ystadegol gadarn o wastraff a gynhyrchir gan ddiwydiant a masnach yng Nghymru.

10. Hwyluso'r defnydd o ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio

Gweithio i gefnogi'r gwaith o gyrraedd targedau datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru trwy wneud y canlynol:

- Defnyddio ein Cynllun Galluogi Carbon Bositif i ymgorffori camau gweithredu ar draws ein sefydliad, gan gynnwys cadw ein hachrediad System Rheoli Amgylcheddol. Byddwn yn cymhwyso ein dysgu o'r prosiect Carbon Bositif i gefnogi Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach i droi'n garbon isel.

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adnabod cyfleoedd ar gyfer ynni'r haul ac ynni gwynt, y gellir eu hadlewyrchu o bosib yn Atlas Ynni Llywodraeth Cymru, yn ein datganiadau ardal, ac yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar asesu sensitifrwydd tirweddau er mwyn helpu i sicrhau'r datblygiad cywir yn y lle cywir.
- Datblygu a mynd ar ôl cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy, megis ffermydd gwynt, haul, dŵr, storfeydd batri a pharciau ynni, ochr yn ochr â'n rhaglen ynni adnewyddadwy ein hunain.
- Darparu cyngor ar gyflawni a gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys sicrhau bod ein cyngor ar ynni morol adnewyddadwy yn gymesur â'r effaith bosibl.

Adnoddau

Rydym yn gwybod y bydd cyllid ac adnoddau yn parhau i newid yn y dyfodol; rydym wedi adeiladu hyblygrwydd a chydnerthedd yng nghynllun y sefydliad fel bod unrhyw newid o ran adnoddau yn canolbwyntio ar feintiau timau yn hytrach nag ailstrwythuro llawn. Yn awr, yn fwy nag erioed, bydd cydweithio'n agos â sefydliadau eraill, yn enwedig wrth ddarparu cynlluniau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gyda'r byd academiaidd a chyrrff proffesiynol i ddatblygu dulliau arloesol, yn hanfodol i'n llwyddiant.

Mae ein Strategaeth Ariannol yn tynnu sylw at y cyfleoedd ariannol a'r heriau y byddwn yn eu hwynebu wrth gyflawni'r targedau yn y Cynllun Busnes hwn a thu hwnt i'n Cynllun Corfforaethol. Byddwn yn ceisio uchafu'r cyfleoedd incwm masnachol a nodir yn ein Cynllun Menter, gan ddangos ein bod yn rheoleiddio diwydiannau'n effeithlon yng Nghymru, ac yn optimeiddio'r defnydd o'r cymorth grant rydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn cyflawni'r cynllun busnes hwn, mae gennym gyllideb gyffredinol gwerth £205 miliwn, refeniw gwerth £175 miliwn a chyfalaf gwerth £30 miliwn. Bydd hyn yn cael ei ariannu gan gymorth grant (£96 miliwn), taliadau (£39 miliwn), incwm masnachol a chyllid allanol (£41 miliwn), ac incwm sy'n cael ei drosglwyddo o 2018/19 (£29 miliwn).

Mae'r gyllideb wedi'i dosbarthu ar draws cyfarwyddiaethau. Cafodd y dosbarthiad hwnnw ei gytuno rhwng cyfarwyddwyr a thimau arweinyddiaeth yn cydweithio ar gynllunio'r sefydliad a'r cynllun busnes, â chyllideb ychwanegol yn cael ei dyrannu lle nodwyd bylchau. Mae hyn wedi sicrhau bod adnoddau wedi'u dyrannu lle mae eu hangen fwyaf.

Hyd nes bydd cynllun y sefydliad yn dod yn weithredol, bydd cyllidebau yn cael eu dosbarthu yn unol â'r strwythur sefydliadol presennol. Ar ôl ei gweithredu, bydd y gyllideb gweithrediadau yn cael ei dosbarthu rhwng y lleoedd, a fydd yn derbyn yr atebolrwydd a'r cyllid i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun busnes hwn. Mae'r holl gyllideb gweithrediadau gwerth £101.7 miliwn wedi'i dyrannu i leoedd, ac mae hon yn cael ei hatodi ymhellach gan elfennau o gyllideb y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu.

Bydd y gyllideb yn cael ei dosbarthu ar draws cyfarwyddiaethau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| Cyfarwyddiaeth | Refeniw (£m) | Cyfalaf (£m) | Cyllideb Lawn (£m) |
|--------------------------------------|---------------------|---------------------|---------------------------|
| Prif Weithredwr | 0.6 | 0.0 | 0.6 |
| Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | 27.2 | 6.5 | 33.7 |
| Gweithrediadau | 96.8 | 23.1 | 119.9 |
| Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | 45.4 | -0.1 | 45.3 |
| Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | 2.1 | 0.0 | 2.1 |
| Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth | 2.9 | 0.0 | 2.9 |
| Cyfanswm Cyllideb 2019/20 | 175.0 | 29.6 | 204.5 |

Fel sefydliad sy'n cyflawni, mae angen i ni fod â'r gallu i arddangos pa mor dda rydym wedi perfformio. Trwy ddefnyddio'r cynllun hwn, a'i ddisgrifiadau o'n gwaith a blaenoriaethau parhaus, byddwn yn datblygu dangosfwrdd perfformiad y bydd ein bwrdd yn ei ddefnyddio pedair gwaith y flwyddyn i graffu ar waith cyflawni a dwyn ein Tîm Gweithredol i gyfrif. Byddwn yn cyhoeddi'r dangosfwrdd hwn ar ein gwefan. Byddwn yn gweithio i ddatblygu sut y gallwn alinio adnoddau ymhellach gyda'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau o fewn ein gwaith cynllunio, cyllidebu a rheoli perfformiad. Bydd hyn yn cynnwys sut rydym yn asesu gwerth o ran yr hyn rydym yn ei gyflenwi.